# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Hydref 2014 i'w hateb ar 14 Hydref 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU ynghylch datganoli pellach i Gymru? OAQ(4)1901(FM)

**2. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella canlyniadau iechyd yng Nghanol De Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)1900(FM)

**3. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru i ganfod niwed i'r llygaid sy'n gysylltiedig â diabetes? OAQ(4)1902(FM)

**4. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar siarter iaith 'Tanio'r Ddraig' ysgolion clwstwr Ystalyfera? OAQ(4)1892(FM)**W**

**5. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyllid ar gyfer ymchwil a datblygu yng Nghymru am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)1899(FM)

**6. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella amseroedd ymateb ambiwlansys yn Nwyrain De Cymru cyn dechrau pwysau'r gaeaf? OAQ(4)1885(FM)

**7. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r angen i newid ffiniau cyfredol NUTS2 a NUTS3? OAQ(4)1890(FM)

**8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr effaith y caiff penderfyniad Llywodraeth y DU i dorri'r Gronfa Byw'n Annibynnol ar Gymru? OAQ(4)1891(FM)

**9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr agenda ar gyfer darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yn Ynys Môn? OAQ(4)1903(FM)**W**

**10. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y bydd toriadau i gyllideb llywodraeth leol yn effeithio ar bobl yng Nghymru? OAQ(4)1897(FM)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y gofal iechyd a ddarperir i bobl sydd â thiwmorau niwroendocrin sy'n byw yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)1887(FM)

**12. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch cynnwys asesiadau iaith yn y Bil Cynllunio? OAQ(4)1896(FM)**W**

**13. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar fynediad i feddygfeydd yng Nghymru? OAQ(4)1895(FM)

**14. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)1886(FM)

**15. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i brif strydoedd lleol? OAQ(4)1893(FM)